




# Amser Maith Maith yn Ôl

## Y DYNIAETHAU

- Cymharu bywyd bob dydd yn Oes Fictoria â bywyd bob dydd heddiw yn gyffredinol.
- Cymharu gwaith bob dydd yn Oes Fictoria, e.e. gweithiwr fferm, gyrrwr trên stêm, glöwr.
- Diwrnod teulu Fferm Llwyn yr Eos yn Oes Fictoria. 
- Cymharu diwylliant ddoe a heddiw, e.e. crefydd – ysgol Sul, dweud adnodau, trip ysgol Sul. Beth rydych chi'n ei wneud ar y Sul heddiw?
- Teithio ddoe a heddiw, e.e. teithio yn Oes Fictoria a theithio heddiw. 
- Diwrnod teulu/ gwyliau Oes Fictoria a theithiau/ gwyliau heddiw, e.e. un diwrnod – trip trên i lan y môr. *Gweithgaredd rhyngweithiol.*

## LLYTHRENNEDD A CHYFATHREBU

- Dyddiadur diwrnod Ceridwen/ Gerallt, e.e. codais yn gynnar, edrychais, cefais, yna gwelais, rhedais, teimlais, ymolchais, cysgais.
- Ysgrifennu rhestr o'r holl bethau a oedd yn y fasedg ar gyfer y picnic. 
- Ymchwilio i deithiau trenau stêm yng Nghymru heddiw, e.e. Trenau Rheilffordd yr Ucheldir.

## Y CELFYDDYDAU MYNEGIANNOL

- Drama – chwarae rôl – Gerallt a Ceridwen yn dweud adnodau yn y capel; teithio ar y trên, yna'r trên yn stopio, Gerallt yn dychryn.
- Cerddoriaeth – creu cerddoriaeth am y ddrama, e.e. Gerallt yn rhedeg gyda'r fasedg bicnic er mwyn dal y trên; synau pobl yn sgwrsio; cloch y trên yn canu, y trên yn symud, y stêm.
- Celf – braslunio lluniau o drenau stêm gan ganolbwyntio ar yr injan.

Cyfes 2

Rhaglen

5

## Oes Fictoria Trip Trên

## MATHEMATEG A RHIFEDD

- Amser – datrys problemau syml ar amser, e.e. amser i wneud gwahanol bethau yn ystod y dydd; amserlen trenau heddiw.
- Pwyso – pwyso gwahanol wrthrychau – trwm/ysgafn; datrys problemau syml, e.e. faint yn fwy yw pwysau xx? Pa un yw'r ysgafnaf?

## GWYDDONIAETH A THECHNOLEG

- Adnabod ac enwi deunyddiau gwahanol, e.e. pren, glo, plastig, llechen, gwydr.
- Creu model syml o drên stêm.
- Grymoedd – gwrthio a thynnu. Sut roedd y trên stêm yn symud?
- Sut mae deunyddiau yn newid wrth eu hoeri neu gwresogi? e.e. llosgi glo; dŵr – rhewi, berwi.
- Defnyddio sgrin werdd i ffilmio golygfa o'r rhaglen, e.e. gorsaf drenau.

## IECHYD A LLES

- Sut rydych chi'n teimlo pan ydych chi'n mynd ar wyliau/ymweliad? Pam?
- Sut rydych chi'n teimlo pan ydych chi wedi bod yn ddrwg? Pam?
- Chwarae'r gêm â'r bêl a welwyd yn y rhaglen (e.e. chwarae'r gêm ar y trên wrth iddynt aros am ragor o lo).



Rhestr ddwyieithog o gwestiynau allweddol, geirfa, termau allweddol.

Allwch chi ddod o hyd i...?

*Can you find...?*

Beth sy'n digwydd?

*What's happening?*

Beth allwch chi ei ddweud am...?

*What can you say about...?*

Beth wnaethoch chi ei ddarganfod am...?

*What did you find out about...?*

Beth arall hoffech chi ei wybod am...?

*What else would you like to find out about ...?*

|                 |                             |
|-----------------|-----------------------------|
| Oes Fictoria    | <i>Victorian Age</i>        |
| capel           | <i>chapel</i>               |
| adnod o'r Beibl | <i>verse from the Bible</i> |
| trên stêm       | <i>steam train</i>          |

|               |                      |
|---------------|----------------------|
| glo           | <i>coal</i>          |
| gyrrwr trê    | <i>train driver</i>  |
| basged bicnic | <i>picnic basket</i> |

